

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 15 Ionawr 2015 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Dewi Owens, Arwel Roberts (Is-Gadeirydd), Gareth Sandilands a David Simmons (Cadeirydd)

Aelodau Cyfetholedig Gill Greenland, Dr Dawn Marjoram a Gareth Williams.

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Addysg (KE), Cydlynnydd Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol (DM), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Swyddog Arweiniol, Llyfrgelloedd a'r Celfyddydau (AJ), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (IMc), Swyddog Gwella Corfforaethol (NK) Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Mynychodd y Cynghorydd Huw Ll Jones, Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig, ar gais y Pwyllgor ar gyfer eitem 7.

Arsyllwr - Y Cynghorydd Gwyneth Kensler

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams a Peter Owen a'r Aelod Cyfetholedig Debra Houghton.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a David Simmons gysylltiad personol ag Eitem 5 ar y Rhaglen - Dilysu Arholiadau Allanol ac Aseidiadau Athrawon.

Datganodd y Cynghorydd David Simmons gysylltiad personol ag Eitem 6 ar y Rhaglen - Pobl Ifanc Heb Fod Mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant.

Datganodd yr Aelod Cyfetholedig, Gillian Greenland, gysylltiad personol ag Eitem 5 ar y Rhaglen - Dilysu Arholiadau Allanol ac Aseidiadau Athrawon ac eitem 6 - Pobl Ifanc Heb Fod Mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Iau 20 Tachwedd 2013.

Gofynnodd y Cyngorydd Gareth Sandilands am ddiweddariadau rheolaidd ynghylch y gwasanaeth Teledu cylch caeedig (TCC) a'r Gwasanaeth Allan o Oriau (Eitem 5 - Tudalen 8). Eglurodd y Prif Weithredwr fod y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi sefydlu Gweithgor ac y byddai diweddariadau rheolaidd ar gael o'r gweithgor hwnnw.

Cadarnhaodd y Cydlynnydd Archwilio hefyd fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) wedi penderfynu y byddai'r adroddiad ar y Strategaeth gwblhau/darpariaeth amgen ar gyfer y Gwasanaeth TCC ac Allan o Oriau, yr oedd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wedi gofyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau naill ai ym mis Mai neu fis Mehefin 2015. Byddai'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwnnw gan mai hwn yw pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn pwrpasol y Cyngor.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5 ARHOLIADAU ALLANOL WEDI EU GWIRIO AC ASESIADAU ATHRAWON

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad Arholiadau CA4 (a ddisbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych. Gwnaeth hefyd roi ymddiheuriadau Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, y Gwasanaeth Effeithlonrwydd Ysgolion Rhanbarthol, am ei absenoldeb o'r cyfarfod, nad oedd modd ei osgoi. Nid oedd yn gallu bod yn bresennol gan fod GwE yr wythnos honno yn cael ei arolygu gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Roedd adroddiad wedi ei gyflwyno yn flaenorol ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgorau Archwilio Perfformiad ym mis Hydref 2014.

Ystyriodd y Pwyllgor wybodaeth am berfformiad a wiriwyd canlyniadau arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) ac ôl-16, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol GwE, y Gwasanaeth Effeithlonrwydd Ysgolion Rhanbarthol, ar ei waith yn Sir Ddinbych.

Roedd y canlyniadau cyffredinol yn hynod foddhaol, ac roedd canlyniadau Lefel 2 yn arbennig o ddymunol. Er bod y Cyngor wedi bod yn cyflawni'n uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r dangosyddion CA4, nid oedd yn bwriadu bod yn hunanfodlon a byddai'n parhau i ymdrechu am ragoriaeth ym mhob cyfnod allweddol mewn ymgais i wella canlyniadau ar gyfer pob disgybl a rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt ar gyfer y dyfodol.

Er gwaethaf y perfformiad gwell o ran canlyniadau CA4, roedd perfformiad rhai ysgolion unigol wedi dirywio ac mae'r pwyllgor archwilio wedi eu hannog i gefnogi'r ysgolion hynny ar eu taith at wella.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ac mewn ymateb i gwestiynau aelodau, dywedodd y swyddogion:

- Roedd Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi bod yn cael cefnogaeth sylweddol i hwyluso gwelliant oddi wrth y sir a GwE. Byddai effaith cefnogaeth GwE i'r ysgol yn cael ei gwerthuso yn y dyfodol agos
- Cyfarfu swyddogion yr Adran Addysg a GwE bob pythefnos i drafod eu cynlluniau gwaith ac i sicrhau bod yr ysgolion sy'n cael cefnogaeth yn mynd rhagddynt gyda'u gwelliant.
- Roedd cefnogaeth yn cael ei rhoi i dîm rheoli Ysgol Brynhyfryd yn dilyn secondiad eu Pennaeth i GwE. Byddai effaith y gefnogaeth yn cael ei monitro yn barhaus yn wyneb y ffaith bod perfformiad yr ysgol mewn rhai meysydd wedi dirywio.
- Roedd trafodaethau ar y gweill gydag arweinwyr busnes ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, o ran sut y gallai adrannau addysg awdurdodau lleol roi'r sgiliau a'r cymwysterau perthnasol yn y ffordd orau i ddisgyblion er mwyn gwella'r economi leol o fewn cyfyngiadau'r cwricwlwm cenedlaethol. Byddai rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu Fforwm Cyflogwyr Addysg.
- O fewn categoraiddio uwchradd Llywodraeth Cymru, roedd Sir Ddinbych yn y 4ydd safle ar y cyd yng Nghymru allan o 22 awdurdod addysg. Er nad oedd gan Sir Ddinbych unrhyw ysgolion unigol yng nghategori 4, y categori isaf, roedd dwy ysgol yng nghategori 3. Dyhead y Sir fyddai cael pob ysgol yn naill ai categori 1 neu 2. Er mwyn cyflawni hyn, byddai gwaith a chefnogaeth bellach yn ofynnol ar gyfer tair ysgol. Awgrymwyd yn ystod y cyfarfod y gallai archwilio fod â rôl i'w chwarae wrth sicrhau'r gwelliant hwn.
- Roedd strategaeth tymor hir ar waith i fynd i'r afael â'r amrywiad mewn perfformiad rhwng ysgolion mewn perthynas â chyrhaeddiad lefel 2, gan gynnwys iaith a mathemateg. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys nodi disgyblion sy'n ei chael yn anodd yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'w galluogi i wireddu eu potensial yn nes ymlaen yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Byddai'r gwaith hwn yn ategu amcanion y strategaeth rhifedd a llythrennedd genedlaethol.
- Yn Fforwm Ieuenctid y Sir, gofynnwyd am safbwyntiau disgyblion ar faterion addysgol, e.e. pynciau a dulliau addysgu.
- Er y cydnabu bod ethos ysgolion unigol yn cael rhywfaint o effaith ar gyrhaeddiad addysgol, roedd pob ysgol a'u staff yn gwbl ymwybodol o ba safonau perfformiad a ddisgwylid ganddynt, yn lleol a chenedlaethol. Roedd hefyd yn cael ei gydnabod yn eang bod cydberthynas rhwng addysgu da a disgyblion ysbrydoledig.
- Tynnwyd sylw at gyflawniadau addysgol ysgolion arbennig y Sir a'i Blant sy'n Derbyn Gofal. Fodd bynnag, nododd swyddogion ac aelodau eu siom parhaus nad oedd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gyflawniadau addysgol ysgolion arbennig. Penderfynwyd, felly, bod llythyr yn cael ei anfon at y Pennaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru yn cyfleu barn y Pwyllgor ei fod yn

cymryd camau i adrodd yn flynyddol mewn modd dilys a phriodol ar gyflawniadau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion mewn ysgolion arbennig.

- Roedd gan swyddogion bryderon tebyg i aelodau mewn perthynas â faint o gydnabyddiaeth a roddwyd gan y sector addysg uwch i gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Roedd swyddogion wedi tynnu sylw LIC at y pryder hwn, ond awgrymwyd efallai y bydd archwilio hefyd am edrych i mewn i'r broblem a'i heffaith ar ddisgyblion y Sir.
- Roedd angen gwella sgôr pwyntiau ehangach mewn perthynas â chanlyniadau lefel 3 gyda golwg ar wella safle'r Sir yng Nghymru (20fed ar hyn o bryd) a chefnogi disgyblion i wireddu eu potensial llawn a dilyn y llwybr addysgol / gyrfa y maent wedi'i ddewis.
- Roedd y mater sy'n ymwneud ag adeiladwaith adeiladau ysgol a'u haddasrwydd ar gyfer addysgu modern yn cael sylw drwy'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Fodd bynnag, roedd hyn yn ddibynnol ar gyllid llywodraeth ganolog yn ogystal â chyllid llywodraeth leol a allai gael eu heffeithio yn ddifrifol yn y tymor hir gan y toriadau ariannol yn y sector cyhoeddus. Codwyd materion ynghylch addasrwydd rhai adeiladau yn Ysgol Plas Brondyffryn ar gyfer ysgol arbennig
- Cadarnhawyd bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gwreiddiol rhwng holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a GwE yn CLG generig wedi'i anelu at dargedu cefnogaeth i ysgolion sy'n tanberfformio. Gan nad oedd y rhan fwyaf o ysgolion Sir Ddinbych yn syrthio i'r categori hwn, roedd wedi gwireddu manteision cyfyngedig yn rhannol yn unig o'i fuddsoddiad yn y gwasanaeth. Serch hynny, nid oedd gan yr ysgolion a oedd wedi gweithio'n agos gyda GwE ddim byd ond canmoliaeth am y gwasanaeth a'r gefnogaeth a gawsant. O dan y CLG diwygiedig ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol (2014/15), roedd swm penodol o arian wedi ei roi o'r neilltu ar gyfer ymyrraeth yn Sir Ddinbych. Y bwriad oedd y gallai rhywfaint o'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ymyrryd i gefnogi ysgolion da i symud ymlaen i fod yn ysgolion ardderchog.
- Pwysleisiwyd bod y cyllid ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion gan Lywodraeth Cymru wedi ei ddiogelu rhag y toriadau yn y gyllideb, dylai hyn sicrhau y dylai lefel y gwasanaeth a ddarperir gan GwE gael ei gynnal a bod o ansawdd da cyson.

Yn dilyn y drafodaeth fanwl, llongyfarchodd y Pwyllgor y staff addysg ac ysgolion ar eu perfformiad.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod:

- cymeradwyo perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd*
- bod llythyr yn cael ei anfon at y Pennaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru yn cyfleu barn y Pwyllgor y dylai camau gael eu cymryd yn genedlaethol i adrodd yn flynyddol, mewn modd dilys a phriodol, ar gyflawniadau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion mewn ysgolion arbennig.*
- bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yn ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol, gwaith mewn perthynas â:*
 - chynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni graddau A* ac A ar Lefel 2 (TGAU) a Lefel 3 (Safon Uwch a Galwedigaethol Cyfwerth), gan*

gynnwys cynyddu'r sgôr pwyntiau ehangach, trwy gefnogaeth gan yr Awdurdod Addysg Lleol a GwE

- b. archwilio a monitro effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddir i'r ddwy ysgol uwchradd yn y Rhyl i wella eu lefelau cyrhaeddiad Lefel 2 ac i gynnal gwelliant yn yr ysgolion hynny'n barhaus*
- c. archwilio a monitro effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddir i Ysgol Uwchradd Prestatyn i wella ei lefelau cyrhaeddiad Lefel 2 a Lefel 3 ac i gynnal gwelliant yn yr ysgol honno'n barhaus*
- d. archwilio a monitro effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarperir i Ysgol Brynhyfryd gyda golwg ar adennill ei lefelau cyrhaeddiad Lefel 2 a Lefel 3 blaenorol a gwella ymhellach tuag at fod yn ysgol ragorol*
- e. archwilio a monitro cyrhaeddiadau addysgol Lefel 3 myfyrwyr Chweched dosbarth y Rhyl i benderfynu a yw eu canlyniadau addysgol yn cael eu diwallu i safon foddhaol sy'n eu cefnogi ar eu llwybrau addysgol / gyrfa y maent wedi'u dewis*
- f. archwilio ffyrdd y gall y Cyngor weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn ymgais i ehangu'r gydnabyddiaeth a roddir gan sefydliadau addysg uwch i gymhwyster Bagloriaeth Cymru.*

6 POBL IFANC HEB FOD MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg yr adroddiad NEETS (pobl ifanc "heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant") (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth am y mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd ati i gefnogi'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET yn rhagweithiol er mwyn gwella perfformiad yn erbyn y mesur hwn. Hefyd, er mwyn sicrhau nad oes yr un o bobl ifanc y Sir yn syrthio i mewn i'r categori hwn, a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyfrannu at ddatblygiad yr economi leol.

Wrth ystyried yr adroddiad, dywedwyd wrth yr aelodau bod y niferoedd yn y categori hwn wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ers 2008. Yr unig flwyddyn pan oedd y niferoedd wedi codi, oedd yn 2013. Fodd bynnag, roedd y data diweddaraf yn dangos bod y duedd wedi cael sylw a bod y nifer yn gostwng eto.

Yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad, amlinellodd y swyddogion y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, trwy ei grŵp llywio addysg, a oedd yn edrych ar baru cymwysterau a sgiliau myfyrwyr gyda sgiliau ac anghenion cyflogwyr lleol.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, dywedodd y swyddogion fod Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd yn gwasanaethu ar Gyd-bwyllgor GwE. Roedd y penodiad hwn wedi ei anelu at sicrhau cysylltedd rhwng maes addysg a chyflogaeth.

Wrth ymateb i gwestiynau ar effaith poblogaeth symudol uchel ar gyrhaeddiad addysgol a ffigurau NEET ar hyd ardaloedd arfordirol y Sir, dywedwyd wrth yr aelodau bod gan ysgolion yn yr ardaloedd penodol hynny fesurau wedi sefydlu'n dda yn eu lle i ddelio ag effaith poblogaeth symudol ar eu hysgolion . Roedd y mesurau hyn yn gadarn ac yn gweithio'n dda.

Ar ddiwedd y drafodaeth,:

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn fodlon ar y mesurau i fynd i'r afael â lleihau nifer yr unigolion NEET yn y sir ac i sicrhau bod pob myfyriwr yn y sir yn cael ei gefnogi i wireddu ei botensial.

7 PERFFORMIAD MEWN PERTHYNAS Â CHYRRAEDD Y SAFONAU PERFFORMIAD LLYFRGELLOEDD NEWYDD

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig yr adroddiad, "Cwrdd â'r Fframwaith Newydd o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17" (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Hefyd, gofynnodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion am sylwadau'r aelodau ar weledigaeth y dyfodol ar gyfer llyfrgelloedd y Sir fel canolfannau cymunedol.

Gofynnwyd am yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn dilyn yr Adroddiad Gwybodaeth a ddosbarthwyd i'r Aelodau ym mis Mai 2014.

Yn ystod cyflwyno'r adroddiad, pwysleisiwyd er gwaethaf y ffaith nad oedd Sir Ddinbych yn bodloni tri allan o'r wyth o safonau cenedlaethol a osodwyd gan y rheoleiddiwr - CyMAL, bod y Llyfrgell yn wasanaeth hynod o boblogaidd gyda defnyddwyr. Roedd safonau nad oedd wedi eu bodloni yn ymwneud â niferoedd staffio, arolygon cyflwr adeiladu ac a oedd Wifi ar gael. Gan fod yr olaf yn y broses o gael ei fodloni, roedd penderfyniad ymwybodol wedi ei gymryd o ran peidio ymdrech i fodloni'r ddau arall ar sail cyfyngiadau cyllidebol a'r ffaith bod yr holl adeiladau o ansawdd boddhaol ac mai ymarfer gweinyddol diangen oedd yr arolwg. Roedd y Cyngor yn gyson, am y 12 mlynedd diwethaf neu fwy, wedi bod yn y chwarter uchaf yng Nghymru ar gyfer y nifer o ymweliadau â llyfrgelloedd, nifer o lyfrau a fenthycwyd a boddhad cwsmeriaid - yn ddiweddar roedd wedi ei barnu'n gyntaf ar y cyd yng Nghymru ar gyfer bodlonrwydd cwsmeriaid ymhlith rhai dan 16 oed. Roedd CyMAL yn cydnabod bod gwasanaeth llyfrgell y Sir yn wasanaeth poblogaidd a gwerthfawr – roedd nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu mewn gwirionedd yn ystod 2013/14. Wrth symud ymlaen a, gyda'r bwriad o barhau â darparu gwasanaeth poblogaidd yn wyneb toriadau ariannol, roedd dull arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd ochr yn ochr â gwasanaethau cymunedol ac awdurdodau lleol eraill yn cael ei gynnig, drwy sefydlu Canolfannau Cymunedol. Byddai pob canolfan gymunedol, a leolir mewn adeiladau llyfrgelloedd presennol, yn cael ei theilwra i ddarparu'r gwasanaethau allweddol sydd eu hangen yn y cymunedau unigol hynny. Er nad oedd y cynigion hynny wedi eu hanelu at gyflawni pob un o ddangosyddion fframwaith newydd CyMAL, roeddent yn cyd-fynd â gweledigaeth LIC ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned a chanolfannau cymunedol wedi'u cynllunio i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gyfannol. Roedd swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion CyMAL i drafod y weledigaeth arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer llyfrgelloedd y sir ac roeddent yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion ac yn gefnogol ohonynt ar y cyfan.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth swyddogion:

- amlinellu'r costau cyfalaf a refeniw o osod a chynnal a chadw Wifi mewn llyfrgelloedd a'r gwahanol ffynonellau ariannu a oedd wedi eu defnyddio i gyllido'r gwaith o'u gosod

- cadarnhau bod cynlluniau ar y gweill i osod Wifi yn y ddwy lyfrgell arall yn ystod 2015
- manylu am y mathau o wasanaethau, cyhoeddus a gwirfoddol, a allai gael eu lleoli o fewn y canolfannau cymunedol arfaethedig
- cadarnhau y byddai'r gwasanaeth llyfrgell ysgol yn dod i ben ym mis Mawrth 2015, ond gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cysylltu â'r gwasanaeth llyfrgell prif ffrwd ag ymholiadau a cheisiadau, ni ddylai'r ffaith bod y gwasanaeth yn dod i ben gael effaith andwyol
- byddai trosglwyddo cyfrifoldeb rheoli ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell i'r Gwasanaeth Cefnogi Cwsmeriaid ac Addysg yn rhoi cyfle delfrydol i wella'r berthynas waith rhwng y gwasanaethau addysg a llyfrgelloedd. Byddai hefyd yn hwyluso cyflwyno gwasanaethau addysg penodol h.y. cyrsiau sgiliau digidol a llenyddol o fewn canolfannau cymunedol yn y dyfodol
- cadarnhau ei fod yn ofyniad statudol i bob awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth llyfrgell, roedd y dull o ddarparu'r gwasanaeth yn ôl disgrisiwn pob Cyngor unigol
- dweud bod y Gwasanaeth wedi prynu llyfrau drwy'r consortia Cymru Gyfan oedd yn gwireddu arbedion ariannol sylweddol i'r Cyngor
- nodi bod yr ardaloedd a fyddai'n cael eu rhyddhau o fewn llyfrgelloedd, unwaith y bydd arddangosfeydd sy'n seiliedig ar gelf wedi eu dileu'n raddol, yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn golygu na fyddai staff y gwasanaeth celf ar gael i gynorthwyo grwpiau celfyddydol i drefnu / gosod arddangosfeydd yng nghanolfannau eraill o fewn y gymuned.
- cadarnhau y byddai'r gwasanaeth celf yn barod i weithio gyda grwpiau cymunedol ac ati, i ganfod a gwneud cais am gyllid allanol ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- cadarnhau y dylai'r Gwasanaeth, er gwaethaf y toriadau y mae'n eu hwynebu, fod â digon o gapasiti yn y dyfodol i ymgymryd â'i arolygon boddhad cwsmeriaid ei hun yn hytrach na thalu darparwr allanol i ymgymryd â hwy.

Holodd yr Aelodau hefyd am y posibilrwydd o'r holl lyfrgelloedd / canolfannau cymunedol a leolir mewn ardaloedd lle roedd band eang ffibr optig ar gael yn darparu'r gwasanaethau hynny, ac am gynlluniau i arddangosfa barhaol ar gyfer y diweddar Philip Jones-Griffiths gael ei lleoli yn Llyfrgell Rhuddlan.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion a staff am ddarparu gwasanaeth mor boblogaidd a gwerthfawr er nad ydynt yn bodloni holl ofynion y Rheoleiddiwr, a hefyd am fod yn barod i gwrdd â'r Rheoleiddiwr ac esbonio pam nad yw dangosyddion wedi eu bodloni ac egluro gweledigaeth a rhesymeg yr Awdurdod. Gwnaeth y Pwyllgor:

Benderfynu:

- (i) yn amodol ar y sylwadau uchod ar ofynion Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd i dderbyn perfformiad a amcangyfrifir y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2014-17; ac
- (ii) i roi yn ei raglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer Hydref 2015 Asesiad Blynnyddol CyMAL yn seiliedig ar berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell 2014-15; a
- (iii) bod yr adroddiad yn Hydref 2015 hefyd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar y gwaith o ddatblygu llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol.

Ar yr adeg hon (11.35 am) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45 a.m.

8 POLISI ENWI STRYDOEDD

Cyflwynodd y Cydlynnydd Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i Aelodau ystyried y cynnydd sydd wedi ei wneud wrth weithredu'r Polisi newydd.

Dywedodd y Cydlynnydd Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol yn ystod cyflwyno'r adroddiad hwn, yn dilyn derbyn y cais cyntaf am newid enw stryd gan aelod o'r cyhoedd, roedd y polisi wedi ei ddefnyddio a'r broses ymgynghori ddyledus wedi ei dilyn. Byddai problemau a oedd wedi dod i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori ar y cais cyntaf yn cael eu datrys gyda'r bwriad o hwyluso'r broses ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol ac ymarferion ymgynghori. Ar ddiwedd y broses ymgynghori gyntaf hon, roedd y Pennaeth Gwasanaeth, yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd iddo, wedi cymeradwyo'r newid enw ac roedd trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r cyngor cymuned perthnasol o ran ceisio ei gytundeb i noddi'r newid enw. Os na fyddai'r cytundeb yn dod i law byddai'r Cyngor Sir yn noddi'r newid. Os yr olaf fyddai'n wir efallai na fyddai modd archebu'r holl arwyddion perthnasol tan y flwyddyn ariannol newydd.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth swyddogion:

- fanylu ar y broses a ddilynwyd i ddyrannu enwau strydoedd ar ddatblygiadau newydd ac i ofyn am newid enw stryd presennol, gan gynnwys y cyfrifoldebau ariannol gwahanol ym mhob achos
- egluro'r gwahanol ddeddfwriaeth, yn y gorffennol a'r presennol, a oedd yn llywodraethu enwi a rhifo strydoedd
- ymgymryd i egluro pa gymal(au) o Ddeddf 1972 wnaeth ddisodli cymal 65 o Ddeddf Cymalau Gwella Trefi 1847 mewn perthynas â rhifo ac enwi strydoedd
- cynnig edrych ymhellach i mewn i enwi Ffordd Tan yr Eglwys yn Rhuddlan, a'r diffyg enwau swyddogol ar gyfer y ddwy ffordd a oedd yn ffurfio ffin ardal triongl Cae Shon yng nghymuned Trefnant, y ddau ohonynt yn ymuno ag Allt Goch ar gyffyrdd ar wahân (a elwir yn lleol fel Ffordd y Sipsiwn (neu Ffordd y Romani) a Ffordd y Graig)

Felly:

Penderfynwyd:

(i) yn amodol ar eglurhad ar y pwyntiau uchod, i dderbyn a nodi'r cynnydd o ran gweithrediad y polisi; ac

(ii) yn amodol ar adnoddau sydd ar gael, i hyrwyddo'r polisi enwi a rhifo strydoedd

9 CYNLLUN CORFFORAETHOL (CH1 A CH2) 2014/2015

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Corfforaethol adroddiad y Cynllun Corfforaethol (Ch1 a Ch2) 2014/2015 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a chytundebau canlyniadau fel ar ddiwedd Chwarter 2 ym mlwyddyn ariannol 2014/15. Mae adroddiadau rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu eu dyletswydd i wella.

Hysbysodd y Swyddog Gwella Corfforaethol yr aelodau fod adroddiad Chwarter 2 2014/15 yn adroddiad llawer mwy cadarnhaol na'r adroddiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2013/14, yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad o ran y flaenoriaeth gorfforaethol o ddatblygu'r economi leol. Er y rhagwelir na fyddai Sir Ddinbych yn gymwys ar gyfer y swm cyfan o arian cytundeb canlyniadau gan LIC (£1,413,636) ar gyfer 2013/14 ar y sail mai dim ond 83% o'r cytundebau canlyniadau oedd wedi eu cyflwyno, dylai dderbyn oddeutu £1,166,249. Dylai cadarnhad ar y swm terfynol a ddyfernir fod ar gael erbyn diwedd mis Ionawr 2015.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth swyddogion gadarnhau:

- roedd y Gwasanaeth yn cynnal trafodaethau â gweithgynhyrchwyr technoleg Symology i ganfod a oedd unrhyw broblem a oedd yn achosi adroddiadau anghywir o waith a gwblhawyd;
- er gwaethaf y ffaith bod Sir Ddinbych yn cael eu hystyried i fod yn ardderchog ar gyfer cyflwr cyffredinol priif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) ac (C) (THS012) yn ei grŵp teulu, yr awdurdod hwn oedd yr un a berfformiodd waethaf yn ei grŵp teulu ar gyfer 2013-14 ar gyfer y ganran o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Gyda chyllidebau yn lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn, byddai sefyllfa'r Sir yn annhebygol o wella yn y dyfodol agos;
- rhagwelwyd y gallai'r perfformiad gwell o ran datblygu'r economi leol gael ei wella hyd yn oed ymhellach yn dilyn yr ailstrwythuro gwasanaethau sy'n cyd-fynd â'r gwaith uchelgais economaidd a chymunedol;
- roedd gwelliant hefyd wedi ei weld o ran y canlyniadau o fewn y Cytundeb Canlyniadau, a oedd yn cynnwys mynediad i dai o ansawdd da a sicrhau bod myfyrwyr yn cyflawni eu potensial. Dylai hyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni taliad llawn o'r arian cytundebau canlyniadau ar gyfer y flwyddyn 2014/15.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad, a bod gwybodaeth ar benderfyniad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dyfarnu'r Cytundebau Canlyniadau ar gyfer 2013/14 yn cael ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd Ffurflen Cynnig Aelod ar gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio wedi

ei chynnwys fel Atodiad 2. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 yr adroddiad.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1.

Eglurodd y Cydlynnydd Archwilio, yn y blynyddoedd diweddar roedd Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth fynd ymlaen byddai disgwyl i archwilio ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda golwg ar sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Yn y dyfodol, byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd archwilio wrth gyflawni'r disgwyliadau hynny.

Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer archwilio ac ar yr un pryd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, gwnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) argymhell yn ddiweddar y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Arbedion ar y gyllideb
- Cyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol)
- Unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio (neu'r GCIGA) fel blaenoriaeth uchel
- Materion brys, materion na ellir eu rhagweld neu faterion â blaenoriaeth uchel

I gynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, byddai angen ffurflen gynnis ar y pwnc y gofynnwyd amdano. Bydd y ffurflen gynnis yn egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir.

At bwrpas yr adroddiad a drefnwyd ar Adroddiad Perfformiad Gweithdrefn Gŵynion 'Eich Llais' a drefnwyd ar gyfer cyfarfod mis Chwefror y Pwyllgor roedd rhestr o gwynion cyfredol a oedd wedi eu cyflwyno gan yr Aelodau ond nad oedd wedi derbyn ymateb boddhaol yn cael ei llunio a byddai'r Cydlynnydd Craffu yn anfon y rhestr at y Pennaeth Cefnogi Cwsmeriaid ac Addysg ar gyfer ymateb manwl yn y cyfarfod nesaf. Gall archwilio'r dystiolaeth hon helpu'r Pwyllgor i nodi unrhyw dueddiadau wrth ddelio â chwynion ac awgrymu gwelliannau i'r polisi a'r gweithdrefnau cwyno.

Awgrymwyd nifer o eitemau addysg i'w hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn dilyn trafodaeth yn ystod y cyfarfod, fel y nodwyd o dan Eitem 5 a - f.

Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio am ddatganiadau o ddiddordeb i fynychu'r Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar effaith y toriadau yn y gyllideb. Roedd angen dau aelod o bob Pwyllgor Archwilio ynghyd â dirprwyon. Byddai Aelodau yn cael eu recriwtio ar gydbwysedd gwleidyddol a daearyddol. Gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb cyn gynted ag y bo modd.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar yr uchod, fel a nodir yn Atodiad 1.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.